

Pecyn Recriwtio

# Ymddiriedolwr Allanol

UNDEB ABERYSTWYTH

www.umaber.co.uk | www.abersu.co.uk

# Cynnwys:


3 Helo!

4 Amdanom Ni

5 Ein Tîm

6 Disgrifiad Swydd

10 Manyleb Person

11 Eisiau ymgeisio?

# Helo!



## Trish

### Prif Swyddog Gweithredol

Rydym am i fyfyrwyr Aber garu bywyd a’n hymddiriedolwyr sydd wrth wraidd sicrhau bod gan ein Undeb Myfyrwyr yr oruchwyliaeth, yr arweiniad a’r cyngor strategol i gyflawni hyn!

Rydym yn chwilio am **ddau** Ymddiriedolwr allanol brwd i ymuno â thîm Aber ac i wella ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Rydym yn credu bod yr Ymddiriedolwyr gorau yn angerddol am yr hyn mae Undebau Myfyrwyr yn ceisio ei gyflawni, felly os ydy hyn yn apelio yna hoffem ni glywed gennych ni waeth a oes gennych chi brofiad o Undebau Myfyrwyr neu beidio.

Fel sefydliad cynhwysol rydym am sicrhau bod gennym ni Fwrdd Ymddiriedolwyr sy’n cynrychioli demograffeg ein poblogaeth fyfyrwyr ac anghenion ein haelodaeth.
Rydym yn arbennig o awyddus i glywed gan Siaradwyr Cymraeg, Menywod, pobl LHDTC+, anabl a/neu o gefndir niwroamrywiol a/neu o gefndir Du, Asiaidd neu hil cymysg.

Byddai bod ag arbenigedd ar un o’r meysydd canlynol o fudd:
- Marchnata
- Cyfryngau a Pherthnasoedd Cyhoeddus
- Codi Arian
- Cynnwys yr iaith Gymraeg
- Datblygu masnachol

# Amdanom Ni

## Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr!

Undeb a arweinir gan fyfyrwyr ac a gefnogir gan dîm o staff ydym ni. rydym yn ymdrechu i sicrhau bod myfyrwyr Aber yn gallu mwynhau eu taith fyfyrwyr i'r dim a'u bod yn hapus, yn iach ac yn cael eu grymuso, gyda ffrindiau oes a dyfodol addawol. Daw pob myfyriwr Prifysgol Aberystwyth yn aelod Undeb Aber yn awtomatig.

Rydym yn cynnig ystod o fuddion a chyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan ynddynt, gan gynnwys:

- Helpu myfyrwyr i gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau a meithrin cymunedau
- Cefnogi a datblygu Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasau Myfyrwyr
- Cefnogi, hyfforddi a gweithio gyda Chynrychiolwyr Academaidd i gael effaith gadarnhaol er budd myfyrwyr a'u cyrsiau
- Cynnig cyngor amhleidiol, cyfeillgar sy'n gyfrinachol ac am ddim
- Cynrychioli llais i holl fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
- Cyfleoedd i fyfyrwyr ymgyrchu dros faterion sydd o bwys iddynt
- Llefydd i astudio, cwrdd a chymdeithasu

Sefydliad democrataidd ac elusennol ydym ac mae gennym gyfrifoldeb i weithredu'n foesol ac yn gyfrifol ym mhob peth rydym yn ei wneud, gan gyfrannu at y gymuned ehangach a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau gweithio fel rhan o'n tîm cefnogol a chyfeillgar ac y byddwch yn magu a datblygu sgiliau a galluoedd newydd ar hyd y daith.

### CENNAD

Rydyn ni am i fyfyrwyr Aber garu bywyd myfyrwyr

### GWELEDIGAETH

Dylai myfyrwyr Aber fod yn hapus, yn iach ac wedi'u grymuso, gyda dyfodol disglair a chyfeillgarwch sy'n para am oes.

### GWERTHOEDD

- Rydyn ni'n cael ein llywio gan fyfyrwyr – Eich llais chi sy'n cyfrif fwyaf
- Rydyn ni'n gymuned – Rydyn ni am i chi gyfranogi
- Rydyn ni'n dryloyw – Rydyn ni bob amser yn onest ac yn agored
- Rydyn ni'n uchelgeisiol – Rydyn ni'n datblygu ar gyfer y dyfodol
- Rydyn ni'n caru'r Gymraeg – Rydyn ni'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

### ADDEWIDION

- Byddwn yn darparu cyfleoedd i chi ddod o hyd i'ch cymuned Aber
- Byddwn yn ddylanwad cadarnhaol dros fyfyrwyr
- Byddwn yn rhoi cymorth i chi fod yn hapus ac yn iach
- Byddwn yn helpu i dyfu eich sgiliau a'ch profiadau

# Ein Tîm

- **Prif Swyddog Gweithredol** — Trish McGrath
  - **Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** — Eleri Wyn a Cleo Stanford
    - Cydlynydd Cyfryngau a Digwyddiadau (0.5) — Arwa Zakir
    - Cyfieithydd — Felix Parker-Price
  - **Pennaeth Cyllid a Gweithredu** — Catrin Hopkins
    - Cydlynydd Derbynfa a Chyllid — Kit Hansen
    - Staff Myfyrwyr — Tymor Prifysgol yn unig
  - **Pennaeth Pobl a Llesiant** — Annmarie Evans
    - Ymgynghorydd Myfyrwyr — Molly Sutton
  - **Pennaeth Llais Myfyrwyr** — Jacob Webb
    - Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth — Aisleen Sturrock
    - Cydlynydd Cynrychiolwyr Acadmaidd (0.5) — Arwa Zakir
  - **Pennaeth Cyfleodd Myfyrwyr** — Lucie Gwilt
    - Cydlynydd Datblygu Cymdeithasau a gwirfoddoli — Cat Edwards
    - Cydlynydd Chwaraeon — Paige Cradduck

## Swyddogion Llawn Amser

| Llywydd | Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA | Llesiant | Materion Academaidd | Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Millicent Hackett | Nanw Maelor | Tanaka Chikomo | Esperanza Bizama Monnier | Ffion Johns |

# Disgrifiad Swydd

## YMDDIRIEDOLWR ALLANOL

YN ATEBOL I: Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
CYFLOG: Gwirfoddol
ORIAU: O leiaf 4 cyfarfod y flwyddyn, hefyd cyfarfodydd eraill a chyswllt yn ôl y galw.
DYDDIAD A YSGRIFENNWYD: Tachwedd 2020

### DIBEN Y SWYDD

- Sicrhau bod gan Undeb Aberystwyth weledigaeth, cenhadaeth a chyfeiriad strategol eglur, a'i fod yn canolbwyntio ar wireddu'r rhain.
- Bod yn gyfrifol am berfformiad Undeb Aberystwyth a'i ymddygiad.
- Sicrhau bod Undeb Aberystwyth yn cydymffurfio â phob gofyn cyfreithiol a rheoleiddiol.
- Gweithredu fel gwarchodwyr asedau Undeb Aberystwyth, boed diriaethol neu anniriaethol, gan ofalu am eu diogeledd, eu lleoliad a'r defnydd cywir ohonynt.
- Sicrhau bod llywodraethiant Undeb Aberystwyth o'r safon uchaf posibl.

### DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

**Wrth weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolwyr eraill, y Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff eraill, rhaid i Ymddiriedolwyr sicrhau:**

- Bod gan Undeb Aberystwyth weledigaeth, cenhadaeth a chynllun strategol eglur, a gytunwyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a bod dealltwriaeth gyffredin o'r rhain ymysg Ymddiriedolwyr a staff;
- Bod cynlluniau gweithredol, y ogystal â chynlluniau eraill, yn cefnogi'r weledigaeth, y genhadaeth a'r blaenoriaethau strategol hyn;
- Bod amcanion a thargedau blynyddol, a rhai mwy hir-dymor, y Prif Weithredwr yn gefnogol i wireddu'r weledigaeth, y genhadaeth a'r blaenoriaethau strategol;
- Bod polisïau Bwrddyr Ymddiriedolwyr yn cefnogi'r weledigaeth, y genhadaeth a'r blaenoriaethau strategol;
- Bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer:
  - gwrando ar farn Aelodau cyfredol ac Aelodau'r dyfodol;
  - adolygu'r amgylchedd allanol am newidiadau a allai effeithio ar UMPA;
  - ail-asesu'r angen am Undeb Aberystwyth a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, neu y gellid eu darparu;
  - adolygu ei gynllun strategol a'i flaenoriaethau'n rheolaidd.

- Sicrhau bod y peryglon mwyaf sy'n wynebu Undeb Aberystwyth yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bod systemau wedi cael eu profi am eu cadernid.
- Sicrhau bod incwm ac eiddo Undeb Aberystwyth yn cael eu defnyddio at y dibenion a amlinellir yn y ddogfen lywodraethu ac nid at unrhyw ddiben arall, ac yn gwbl deg rhwng y bobl sy'n gymwys i elwa ohonynt.
- Gweithredu'n rhesymol, yn ddoeth ar y cyd ym mhob mater sy'n ymwneud ag Undeb Aberystwyth a gweithredu er budd Undeb Aberystwyth bod amser.
- Bod yn atebolam hydaledd ac effeithiolrwydd parhausUndeb Aberystwyth ac am warchod ei waddoliadau.
- Gweithredu rheolaeth gyffredinol effeithiol dros faterion ariannol Undeb Aberystwyth a sicrhau nad yw'r ffordd y caiff Undeb Aberystwyth ei weinyddu'n agored i gamddefnydd gan unrhyw gydymaith, gweithiwr neu wirfoddolwr diegwyddor; a bod y systemau rheolaeth yn llym a'u bod yn cael eu cynnal yn gyson drwy werthuso a gwella rheolaidd yng ngoleuni profiad.
- Sicrhau bod gwerth yn cael ei osod ar asedau anniriaethol megis gwybodaeth ac arbenigedd y mudiad, eiddo deallusol ac enw da Undeb Aberystwyth, a'u bod yn cael eu defnyddio a'u gwarchod yn gywir.
- Sicrhau bod yr holl incwm sy'n deilwng i Undeb Aberystwyth yn cael ei dderbyn, bod pob budd o ran trethi yn cael ei feddiannu a phob cymorth trethi'n cael ei hawlio.

**Sicrhau bod llywodraethiant Undeb Aberystwyth o'r safon uchaf posibl:**

- Sicrhau bod gan Undeb Aberystwyth strwythur llywodraethiant sy'n briodol i fudiad o'i faint, cymhlethdod, lefel o ddatblygiad a'i amcanion elusennol, ac sy'n galluogi'r Ymddiriedolwyr i ddiwallu eu cyfrifoldebau
- Adlewyrchu'n flynyddol ar berfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a pherfformiad Ymddiriedolwyr unigol
- Sicrhau bod gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y sgiliau angenrheidiol i lywodraethu Undeb Aberystwyth'n dda, a bod ganddynt fynediad i gyngor ac arbenigedd proffesiynol allanol perthnasol
- Sicrhau bod gweithdrefn systemataidd, agored a theg ar gyfer ethol neu recriwtio ymddiriedolwyr
- Sicrhau bod cynlluniau dilyniant ar gyfer yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr lle bo hynny'n bosibl
- Cyfranogi mewn datblygiad a hyfforddiant unigol ac ar y cyd ar gyfer Ymddiriedolwyr.
- Cydymffurfio â'r cod ymddygiad ar gyfer Ymddiriedolwyr.
- Sicrhau bod penderfyniadau pwysig a pholisïau'r Bwrdd yn cael eu gwneud gan yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu ar y cyd.

**Bod yn gyfrifol, ynghyd â'r Ymddiriedolwyr eraill, am berfformiad ac ymddygiad Undeb Aberystwyth:**

- Cytuno ar ddull o fesur cynnydd Undeb Aberystwyth yn wrthrychol parthed ei weledigaeth, cenhadaeth, amcanion/blaenoriaethau strategol, cynlluniau a thargedau blynyddol a derbyn adroddiadau'n rheolaidd ar berfformiad Undeb Aberystwyth;
- Sicrhau bod gwerthoedd sylfaenol a'r egwyddorion sy'n arwain Undeb Aberystwyth yn cael eu mynegi a'u hadlewyrchu ar draws y mudiad;
- Sicrhau bod barn yr Aelodau am berfformiad Undeb Aberystwyth yn cael ei chasglu'n rheolaidd a'i hystyried gan y Bwrdd;
- Penodi Prif Weithredwr a gosod telerau ac amodau'r swydd, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn ei hun ac Undeb Aberystwyth yn ei gyfanrwydd yn buddsoddi yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- Derbyn adroddiadau'n rheolaidd gan y Prif Weithredwr ar gynnydd tuag at flaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt;
- Dal y Prif Weithredwr i gyfrif dros reoliad a gweinyddiaeth Undeb Aberystwyth;
- Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn derbyn adborth adeiladol, rheolaidd ar eu perfformiad mewn rheoli Undeb Aberystwyth ac o ran cwrdd â'u targedauac amcanion blynyddol a hirdymor;
- Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn datblygu mudiad sy'n dysgu a bod staff a gwirfoddolwyr yn adolygu eu perfformiad eu hunain ac yn derbyn adborth yn rheolaidd;
- Sicrhau bod mecanweithiau sy'n galluogi myfyrwyr, aelodau staff, gwirfoddolwyr ac unigolion, grwpiau neu fudiadau eraill i ddwyn i sylw'r Ymddiriedolwyr unrhyw weithgaredd sy'n bygwth cywirdeb Undeb Aberystwyth.

**Sicrhau bod Undeb Aberystwyth yn cydymffurfio â phob gofyn cyfreithiol a rheoleiddiol.**

- Bod yn ymwybodol a sicrhau bod Undeb Aberystwyth yn cydymffurfio â phob gofyn cyfreithiol, rheoleiddiol a statudol.
- Parhau i fod yn gyfarwydd â'r rheolau a’r dogfennau sy'n llywodraethu Undeb Aberystwyth a sicrhau bod Undeb Aberystwyth yn cydymffurfio â'i offerynau llywodraethu, yn ogystal ag adolygu'r rhain yn rheolaidd.
- Cytuno ar y lefelau o awdurdod dirprwyedig a sicrhau bod y rhain yn cael eu cofnodi mewn ysgrifen ar ffurf cofnodion, cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau ac is- bwyllgorau'r Bwrdd, swydd-ddisgrifiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr, staff allweddol, gwirfoddolwyr a.y.b. a dylid hefyd sicrhau bod gweithdrefnau eglur ar gyfer adrodd yn ôl, a gaiff hefyd eu cofnodi mewn ysgrifen, ac y cydymffurfir â hwy
- Sicrhau bod y cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr yn cael eu mynegi'n eglur a'u deall, a bod y cyfarwyddiadau a roddir iddi/o'n dod oddi wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei gyfanrwydd.
- Gweithredu fel gwarchodwyr asedau Undeb Aberystwyth, boed diriaethol neu anniriaethol, gan ofalu am eu diogelwch, eu lleoliad a'r defnydd cywir ohonynt
- Sicrhau bod gan Undeb Aberystwyth systemau a gweithdrefnau rheoleiddio boddhaol ar gyfer dal mewn ymddiriedolaeth ar ran buddiolwyr pob arian, eiddo ac asedau eraill, ynghyd â sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi er y budd mwyaf posibl i Undeb Aberystwyth, o fewn cyfyngiadau'r gyfraith a pholisïau eraill a osodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

**Dyletswyddau eraill:**

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu i gyflawni'r
- Hyrwyddo Undeb Aberystwyth yn gadarnhaol a chynnal ei werthoedd a'i bolisïau.
- Hyrwyddo Undeb Aberystwyth a'n gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb,yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol.

# Manyleb Person

**MANYLEB Y PERSON:**

| MEINI PRAWF | Angenrheidiol | Cais | Diwrnod y Cyfweliad |
|---|---|---|---|
| **NODWEDDION/SGILIAU** | | | |
| Y gallu i roi grym i eraill a'u hysgogi nhw | Hanfodol | | √ |
| Gallu gweithio gydag unigolion, sefyllfaoedd neu sefydliadau cymhleth | Hanfodol | √ | |
| Y gallu i greu a chynnal perthynas weithio gref | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac ar eich liwt eich hun | Hanfodol | √ | √ |
| Yn gallu goresgyn rhwystrau a phroblemau mewn modd adeiladol, gan gadw eich pwyll yn enwedig o dan bwysau | Hanfodol | √ | √ |
| Dealltwriaeth ac ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ac arferion cynhwysol | Hanfodol | √ | √ |
| Ymrwymiad i gynnal gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr | Hanfodol | √ | √ |
| Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | √ | |

# Eisiau ymgeisio?

## Dyma sut:




Anfonwch eich ceisiadau drwy e-bostio eich CV a llythyr eglurhaol byr ynglŷn â pham fod gennych chi ddiddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr/wraig i Undeb Aber a sut rydych yn bodloni anghenion y proffil ac unrhyw un o'r anghenion uchod at ceostaff@aber.ac.uk

**Rhaid cyflwyno eich cais erbyn 09:00 ar 29.08.25.**
**Cyfweliadau (ar-lein): I'w cadarnhau**




